**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 15fed Rhagfyr 2021 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, ac A.J. Rutherford,

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd T. Thomas (yn arsylwi)
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 39. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield YH, MBE, Miss S. Roberts, Mrs. M. Walker a Miss C. Williams.

## 40. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y nodir isod a ***PHENDERFYNU*** arnynt fel a ganlyn.

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

**[Datganodd y Cynghorydd Ms. V. Roberts fuddiant personol yng nghais rhif 45/2021/1079 gan ei bod yn berthynas o bell i'r ymgeisydd ond nid oedd yn ystyried bod y buddiant yn un rhagfarnus]**

| ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 40.1 | **AILYMGYNGHORIAD**<br><br>**LLEOLIAD Y SAFLE:** 14 Grange Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Tynewydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: B. Blakeley<br>B. Jones<br>Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2021/1079 |

| | |
|---|---|
| | **DISGRIFIAD:** Newid defnydd fflat llawr cyntaf (Dosbarth Defnydd C2) yn salon gwallt a harddwch (Dosbarth Defnydd A1) i'w ddefnyddio ar y cyd â busnes llawr gwaelod presennol, gosod ffenestr flaen newydd a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISWYR:** Mr. Ashley Witherspoon a Miss Joanne Coleman o 4 Ffordd Aberkinsey, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD BLAENOROL**: Gohirio er mwyn cael esboniad ar a yw'r cais yn bodloni'r safonau angenrheidiol ar gyfer*<br><br>*(i) mynediad i'r anabl i'r llawr uwch a*<br>*(ii) dull dianc os oes tân*<br><br>**GWYBODAETH YCHWANEGOL A DDERBYNIWYD GAN YR YMGEISYDD:**<br><br>*Emer,*<br><br>*Mewn ateb i'ch ymholiadau:-*<br><br>*a. Bydd cyfleusterau ar gyfer pobl anabl yn cael eu cyfyngu i'r llawr daear yn unig. Nid oes lle ar gyfer Lifft i'r Anabl ac nid yw'r grisiau yn addas ar gyfer lifft grisiau.*<br>*b. Bydd system larwm lawn yn cael ei darparu drwy'r eiddo, gyda'r holl offer canfod mwg a gwres a'r holl ddiffoddyddion tân angenrheidiol. Mae dau ddull dianc amgen, drwy'r brif fynedfa yn y blaen a thrwy'r drws cefn. Bydd yr holl ragofalon tân yn cael eu dangos ar y cynlluniau yn y cyfnod Rheoliadau Adeiladu.*<br><br>*Hyderaf bod hyn yn ateb y cwestiynau.*<br><br>*Cofion,*<br><br>*Brian E. Robinson, ACABE, MWOBO.*<br><br>**PENDERFYNIAD:** *Dim gwrthwynebiad* |
| 40.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Bright Spot 1-6 Rhidfa'r Gorllewin, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2021/1163<br><br>**DISGRIFIAD**: Trwsio parapet to presennol gan gynnwys gosod sgrin ddiogelwch a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISWYR:** Mr. James Parker, Parker Leisure o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| 40.3 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 10 Llys Tegid, y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Tynewydd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>:** B. Blakeley<br>B. Jones<br>Miss C.L. Williams<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2021/1193<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Estyniad a newidiadau i fodurdy presennol i ffurfio lle byw<br><br>**<u>YMGEISWYR</u>:** Mr. a Mrs. Peter a Mandy Brown o'r cyfeiriad uchod<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| 40.4 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Tir ar safle'r cyn Crown Bard Ffordd Derwen, y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Derwen<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>:** Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2021/1205<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Gosod arwydd polyn (arwydd tro wedi ei gymeradwyo dan 45/2019/0594/AD yn flaenorol)<br><br>**<u>YMGEISWYR</u>:** McDonald's Restaurants Limited, 11-59 High Road, East Finchley, Llundain<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Gwrthwynebu*<br><br>*Made'r Cyngor yn bryderus y bydd yr arwydd yn:*<br>- *Cynhyrchu llygredd gofalu i eiddo cyffiniol*<br>- *Tynnu sylw ar gyffordd ffordd brysur*<br><br>*Os caiff ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn gofyn am gael lleihau maint yr arwydd gan yr ystyrir bod y maint presennol yn rhy fawr yn y lleoliad hwn* |
| 40.5 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 13 Burlington Crescent, y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Derwen<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>:** Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2021/1208<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Adeiladu estyniad cefn un llawr<br><br>**<u>YMGEISWYR</u>:** Mrs. Jade Bamber o'r cyfeiriad uchod |

| | |
|---|---|
| | ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**41. CAIS 45/2021/0716 3 ELWY STREET, Y RHYL**

Ymhellach i Gofnod rhif 31.1 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2021, hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod bod gwybodaeth bellach wedi ei darparu gan yr ymgeisydd mewn perthynas â’r gwrthwynebiadau a godwyd gan y Cyngor Tref

Ar ôl trafodaeth ***PENDERFYNWYD***

*Peidio â gwrthwynebu’r cais yn ddarostyngedig i amodau*

*(a) rhwystro defnydd yr eiddo yn y dyfodol fel Tŷ Aml-ddeiliadaeth, a*
*(b) bod yr ardal mwynderau y tu allan yn y cefn yn cael ei dirlunio er budd y trigolion.*

**42. TERFYNU’R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………................